

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir
Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros a
Stopio) 2021**

**The A483 Trunk Road
(Pontarddulais Road, Tycroes,
Carmarthenshire) (Prohibition of
Waiting and Stopping) Order 2021**

Gwnaed 30 Mawrth 2021

Made 30 March 2021

Yn dod i rym 1 Ebrill 2021

Coming into force 1 April 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2), 4(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros a Stopio) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2021.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Pontarddulais Road, Tycroes, Carmarthenshire) (Prohibition of Waiting and Stopping) Order 2021 and this Order comes into force on 1 April 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

Interpretation

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddoethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802.

(2) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802.

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person’s badge*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(1);

mae i “disg parcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(2);

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

mae i “y safle perthnasol” (“*the relevant position*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau’r darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

Gwahardd stopio ar unrhyw adeg

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 6, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd stopio ar unrhyw adeg ar ochr y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

Esemptiadau ar gyfer aros

5.—(1) Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau’r darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi:

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn:
 - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
 - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
 - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r darn o’r gefnffordd; neu

“disabled person’s badge” (“*bathodyn person anabl*”) has the meaning given in regulation 2(1) of the Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(1);

“parking disc” (“*disg parcio*”) has the meaning given in regulation 8(5) of the Local Authorities Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(2);

“the relevant position” (“*y safle perthnasol*”) has the meaning given by regulation 4 of the Local Authorities’ Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road.

Prohibition of waiting at any time

3. Except as provided in article 5, no person may cause or permit any vehicle to wait at any time on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

Prohibition of stopping at any time

4. Except as provided in article 6, no person may cause or permit any vehicle to stop at any time on the side of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Exemptions for waiting

5.—(1) A person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order for so long as may be necessary to enable:

- (a) a person to board or alight from a vehicle;
- (b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;
- (c) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:
 - (i) building, industrial or demolition operations;
 - (ii) the removal of any obstruction to traffic;
 - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the length of the trunk road; or

(1) O.S. 2000/1786 (Cy. 123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(2) O.S. 2000/1785 (Cy. 122).

(1) S.I. 2000/1786 (W.123), amended by S.I. 2014/3082. There are other amending instruments but none is relevant.

(2) S.I. 2000/1785 (W.122).

- (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(1);
- (d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;
- (e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;
- (f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu
- (g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:
 - (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
 - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
 - (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
 - (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.
- (iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the length of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(1);
- (d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;
- (e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the length of the trunk road;
- (f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or
- (g) the vehicle to stop when the person in control of it:
 - (i) is required by law to stop;
 - (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
 - (iii) is prevented from proceeding; or
 - (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Esemptiadau ar gyfer stopio

6. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd stopio ar ochrau'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

- (a) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:
 - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(2) A person may cause or permit a vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the sides of the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

Exemptions for stopping

6. A person may cause or permit any vehicle to stop on the sides of the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order for so long as may be necessary to enable:

- (a) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:
 - (i) building, industrial or demolition operations;

(1) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(1) 2003 c.21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
 - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r gefnffordd; neu
 - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darn o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;
- (b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;
 - (c) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;
 - (d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu
 - (e) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:
 - (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
 - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
 - (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
 - (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.
- (ii) the removal of any obstruction to traffic;
 - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the length of the trunk road; or
 - (iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the length of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003;
- (b) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;
 - (c) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the length of the trunk road;
 - (d) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or
 - (e) the vehicle to stop when the person in control of it:
 - (i) is required by law to stop;
 - (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
 - (iii) is prevented from proceeding; or
 - (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

Dirymu

7. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 2008(1) wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n berthnasol i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

Revocation

7. The A483 Trunk Road (Pontardulais Road, Tycoes, Ammanford, Carmarthenshire) (Prohibition of Waiting) Order 2008(1) is revoked insofar as it relates to the lengths of the trunk road specified in the Schedules to this Order.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Mawrth 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

30 March 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 53 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 95 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'A' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 108 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 181 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'B' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 134 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 181 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'C' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 125 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'D' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'E' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 28 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'F' ar y plan a adnewwyd).

ATODLEN 2

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 78 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 116 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'G' ar y plan a adnewwyd).

SCHEDULE 1

The length of the northern side of the trunk road that extends from a point 53 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 95 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'A' on the deposited plan).

The length of the northern side of the trunk road that extends from a point 108 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 181 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'B' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 134 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 181 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'C' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 116 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 125 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'D' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 5 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 37 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'E' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 5 metres south-west of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 28 metres south-west of the centre-point of that junction (reference 'F' on the deposited plan).

SCHEDULE 2

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 78 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 116 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'G' on the deposited plan).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (HEOL
PONTARDDULAIS, TŶ-CROES, SIR
GAERFYRDDIN) (GWAHARDD AROS A
STOPIO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darn o gefnffordd yr A483 yn Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Sir Gaerfyrddin a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd esemptiadau, gan gynnwys un ar gyfer deiliaid bathodyn person anabl. Gwaherddir cerbydau hefyd rhag stopio ar unrhyw adeg ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 30 Mawrth 2021 ymlaen, gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a'r plan ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1432312.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 30 Mawrth 2021, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (PONTARDULAIS
ROAD, TYCROES, CARMARTHENSHIRE)
(PROHIBITION OF WAITING AND
STOPPING) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and (2), 4(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 1 April 2021.

The effect of the Order is to prohibit waiting at any time on the sides of the length of the A483 trunk road at Pontardulais Road, Tycroes, Carmarthenshire specified in Schedule 1 to this Notice. There will be exemptions, including one for disabled person's badge holders. Vehicles will also be prohibited from stopping at any time on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice.


During a period of 6 weeks from 30 March 2021, a copy of this Notice, Order and plan can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1432312.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- c. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- d. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 30 March 2021, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 53 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 95 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'A' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 108 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 181 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'B' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 134 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 181 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'C' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 116 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 125 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'D' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'E' ar y plan a adnewwyd).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 5 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 28 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'F' ar y plan a adnewwyd).

ATODLEN 2

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 78 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Pharc Derlyn, Tŷ-croes hyd at bwynt 116 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno (cyfeirnod 'G' ar y plan a adnewwyd).

SCHEDULE 1

The length of the northern side of the trunk road that extends from a point 53 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 95 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'A' on the deposited plan).

The length of the northern side of the trunk road that extends from a point 108 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 181 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'B' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 134 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 181 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'C' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 116 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 125 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'D' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 5 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 37 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'E' on the deposited plan).

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 5 metres south-west of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 28 metres south-west of the centre-point of that junction (reference 'F' on the deposited plan).

SCHEDULE 2

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 78 metres north-east of the centre-point of its junction with Derlyn Park, Tycroes to a point 116 metres north-east of the centre-point of that junction (reference 'G' on the deposited plan).